

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd

a gynhaliwyd yn Aberystwyth

Ddydd Gwener, 19 Chwefror 2016

Presennol:

Ymddiriedolwyr

Tricia Carter, Cadeirydd a Llywydd dros-dro		Colin R. John, Trysorydd
Hugh Thomas	Huw Williams	Phil Cooper
Roy Roberts	Roy Evans	Susan Davies
Liz Siberry	Arglwydd Aberdâr	Richard Houdmont
Iwan Davies		

Tîm Gweithredol

Linda Tomos	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol
Avril Jones	Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus
Pedr ap Llwyd	Ysgrifennydd a Phennaeth Llywodraethiant

Hefyd yn bresennol:

Huw Lloyd Jones	Swyddfa Archwilio Cymru
Rebecca Johnson	MALD
Kate Clark	MALD
Doug Jones	Cyngor Partneriaeth
Siân Thomas	Cyngor Partneriaeth
Annwen Isaac	Staff
Carol Edwards	Staff
Mererid Jones	Staff

1.1 Croeso'r Llywydd ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Llywydd dros-dro, Tricia Carter, bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

Roedd Michael Trickey a Dyfrig Jones wedi ymddiheuro am eu habsenoldeb.

1.2 Datgan Buddiannau

Datganodd Tricia Carter fudd yn y materion hynny y mae'r Llyfrgell yn eu trafod o bryd i'w gilydd â Llywodraeth Cymru gan ei bod yn: Gyfarwyddwr Anweithredol ar Bwyllgor Llywodraethiant Corfforaethol Adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Llywodraeth Cymru; Gyfarwyddwr Anweithredol o Bwyllgor Llywodraethiant Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru; ac yn aelod o Fwrdd Rhaglen Awdurdod Refeniw Cymru, Adran Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru.

Datganodd Dr Susan Davies fudd yn y materion hynny y mae'r Llyfrgell yn eu trafod o bryd i'w gilydd â Chronfa Dreftadaeth y Loteri gan ei bod o bryd i'w gilydd yn cynorthwyo sefydliadau eraill gyda cheisiadau.

Datganodd Huw Williams ei fod yn aelod o Geldards LLP ac ers 1 Medi 2015 mae Geldards wedi bod yn un o nifer o gwmnïau a benodwyd i Fframwaith Cyfreithwyr Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru y mae'r Llyfrgell yn bwriadu ei ddefnyddio i fodloni ei gofynion o ran gwasanaethau cyfreithiol. Hefyd, mae Geldards yn parhau i gynghori'r Llyfrgell ar nifer o faterion parhaus dan gyfundeb gwasanaethau cyfreithiol blaenorol a ddyfarnwyd trwy dendr cystadleuol.

Yn ychwanegol, fe wnaeth Huw Williams ddatganiad diddordeb penodol ynghylch eitem 5.1 agenda'r cyfarfod agored.

1.3 Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod Phil Cooper yn bresennol yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd er na gofnodwyd hynny yn y cofnodion.

Adran 2 Materion 'byw' ac angen penderfyniadau

2.1 Gwella Marchnata

Cyflwynodd Linda Tomos y papur 'Braslun ar gyfer gwella Marchnata'r Llyfrgell a datblygu Diwylliant wedi'i ffocysu ar y Cwsmer', a oedd wedi'i baratoi ganddi. Nododd nad Strategaeth mohono, ond yn hytrach ei bwriad yw gosod sylfaen gadarn ar gyfer datblygu'r cyfryw strategaeth yn ystod y misoedd nesaf yma.

Croesawyd y papur hwn gan yr Aelodau ac fe ystyriwyd ei gynnwys yn ofalus. Cytunwyd ar yr amcanion tymor byr, fel ffordd gadarnhaol ac ymarferol o symud ymlaen.

2.2 Strategaeth Codi Incwm

Nododd Linda Tomos ei bod hi a'r Tîm Gweithredol mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a Menter yn datblygu strategaeth codi incwm traws adrannol ar hyn o bryd gan obeithio medru ei gyflwyno'n fuan i'r Bwrdd. Yn y cyfamser cytunwyd y byddai cnewyllyn o ymddiriedolwyr yn ymuno â'r Prif Weithredwr a staff er mwyn datblygu'r strategaeth hwn ymhellach.

Gweithredu: Prif Weithredwr i ymgynnull cnewyllyn o aelodau'r Bwrdd a staff i ddatblygu'r strategaeth hwn ymhellach pan fo hynny'n briodol.

2.3 Cynllun Gweithredu 2016 – 2017

Cyflwynodd Linda Tomos ddrafft Cynllun Gweithredu 2016-2017 i'r Aelodau ac fe'i croesawyd yn frwd ganddynt. Cafwyd nifer o sylwadau adeiladol a defnyddiol y bydd y Prif Weithredwr yn eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun. Nodwyd bod disgwyl i'r Llyfrgell gyflwyno'r Cynllun i'r Dirprwy Weinidog erbyn 19 Mawrth. Gwahoddwyd yr Aelodau i anfon sylwadau pellach at y Prif Weithredwr erbyn diwrnod olaf Chwefror er mwyn ei ddatblygu ymhellach a'i rannu eto gyda'r Bwrdd cyn ei gyflwyno i'r Llywodraeth. Hefyd bydd angen i'r Prif Weithredwr ddatblygu'r dangosyddion cyflawni perthnasol mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd a MALD.

Gweithredu: Linda Tomos i ddatblygu'r dangosyddion cyflawni perthnasol mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd a MALD.

Adran 3 Gwybodaeth a diweddariadau

3.1 Dogfen ffocws

Nodwyd cynnwys y ddogfen.

3.2 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Nododd David Michael y bydd y Comisiwn yn cyhoeddi datganiad yn ystod y dyddiau nesaf yn nodi y byddant yn symud i'r Llyfrgell ganol mis Ebrill. Nodwyd ymhellach fod y les yn cael ei ystyried gan gyfreithwyr y Comisiwn ar hyn o bryd a'i fod ar fin cael ei gytuno.

3.3 Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Nodwyd cynnwys y llythyr, sef ymateb y Llyfrgell i adroddiad y Pwyllgor yn dilyn ymddangosiad rhai o'n swyddogion â'r Pwyllgor ym mis Medi 2015.

3.4 Materion yn ymwneud â'r adeilad

Nodwyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ymateb eto i'r cais a gyflwynwyd iddynt am arian cyfalaf ychwanegol i fynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw hanfodol a oedd angen ei wneud i'r adeilad, yn enwedig y materion hynny'n ymwneud ag iechyd a diogelwch. Roedd y diffyg ymateb yma'n peri cryn bryder i'r Aelodau.

3.5 Adroddiad Uchafbwyntiau Adrannau a'r Cyfarwyddiaethau

Nodwyd cynnwys yr adroddiad. Roedd nifer o'r Aelodau'n gweld gwerth mawr i'r adroddiad hwn.

3.6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Bydd yr Ysgrifennydd yn dosbarthu gwybodaeth berthnasol i'r Aelodau ynghylch y Ddeddf hon. Nododd Linda Tomos fod Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymweld â'r Llyfrgell yn fuan er mwyn trafod goblygiadau'r Ddeddf. Byddai'r Aelodau'n barod iawn i groesawu'r Comisiynydd i gyfarfod o'r Bwrdd a rhoi cyfle iddi annerch yr Aelodau ar y mater pwysig hwn.

Gweithredu: Pedr i ddosbarthu gwybodaeth berthnasol ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'r Aelodau.

3.7 Rhaglen Ailstrwythuro

Nododd Linda Tomos fod y rhaglen ailstrwythuro'n gorfod parhau, yn enwedig wrth i'r Llyfrgell wynebu gostyngiad pellach yn ei chyllid a'r angen i adolygu ein prosesau busnes er mwyn bod yn fwy effeithiol fyth yn yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Fe dalodd y Prif Weithredwr deyrnged i'r staff am eu hymrwymiad i'r Llyfrgell a chynghor a barn adeiladol yr Undebau ar faterion perthnasol yn

ymwneud â'r gweithlu. Nodwyd bod pob swydd a ddaw'n wag yn cael ei rewi ar hyn o bryd, oni ellid cyflwyno achos cryf dros ei llenwi.

O hyn allan, bydd y Prif Weithredwr yn cynnwys ym mhapurau'r Bwrdd fanylion o'r arbedion ariannol hanfodol y mae angen eu gwireddu, ynghyd â manylion yr hyn a arbedwyd hyd ddyddiad cyflwyno pob adroddiad.

Gweithredu: Linda Tomos i gynnwys y canlynol ym mhapurau'r Bwrdd: manylion o'r arbedion ariannol hanfodol y mae angen ei gwireddu; manylion o'r hyn a arbedwyd hyd ddyddiad cyflwyno pob adroddiad.

3.8 Dadansoddiad o'r Holiadur Digwyddiadau – Hydref/Tachwedd 2015

Roedd y ddogfen hon yn anorffenedig ac ni thrafodwyd hi.

Adran 4 Materion ariannol

4.1 Adroddiad cyllidebol hyd 31/12/15

Cyflwynwyd yr adroddiad cyllidebol gan Mererid Jones a nodwyd y sefyllfa ariannol gan yr Aelodau.

4.2 Cyllideb 2016-17

Cyflwynwyd manylion Cyllideb 2016-17 gan Mererid Jones ac fe'i cytunwyd gan yr Aelodau.

Nododd Linda Tomos nad oedd hi'n dymuno cyflwyno toriadau ebrwydd i'r gyllideb heb yn gyntaf cael rhagor o amser i ystyried yr holl opsiynau a oedd ar gael i'r Bwrdd o ran gostwng costau rhedeg y Llyfrgell.

Fel y nodwyd yn y gyllideb, dymuniad y Tîm Gweithredol fyddai gweld yr Aelodau'n caniatáu cyfraniad o £480k o'r gronfa breifat ar gyfer costau rhedeg y Llyfrgell yn ystod 2016-2017 wrth i gynlluniau i ostwng y costau gael eu cynllunio ar gyfer 2017-18.

Mynegwyd pryder ynghylch y gostyngiad a welwyd yn y portffolio buddsoddi a'r bwriad i ddefnyddio cronfeydd preifat y Llyfrgell at bwrpas rhedeg y Llyfrgell o ddydd i ddydd. Cytunwyd bod y mater hwn o wneud defnydd priodol o gronfeydd preifat y Llyfrgell yn fater o'r pwys mwyaf ac y dylid neilltuo rhagor o amser i'w drafod. Gan fod amser y Bwrdd yn brin a bod angen trafod y materion allweddol hyn cyn i'r Bwrdd gyfarfod nesaf ym mis Ebrill, fe gytunwyd i sefydlu Is-bwyllgor Cynllunio Ariannol, a fyddai'n cyfarfod yn fuan. Cytunwyd y byddai'r Trysorydd, Phil Cooper, Hugh Thomas, Huw Williams a Michael Trickey yn aelodau o'r is-bwyllgor ac y byddai Linda Tomos, David Michael a Mererid Jones yn ymuno â hwy yn eu trafodaethau. Fe ddylai'r Is-bwyllgor lunio ei Gylch Gorchwyl ei hun i'w gymeradwyo gan y Bwrdd. Bydd y Trysorydd yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar y trafodaethau a gaed.

Gweithredu: Trefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor fel mater o flaenoriaeth.

4.3 Costau trydan a nwy

Nodwyd cynnwys y papur.

4.4 Strategaeth Caffael

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi'r Strategaeth.

4.5 Adroddiad Ariannol Codi Arian

Nodwyd cynnwys yr adroddiad. Eto, roedd yr hyn a oedd wedi'i gyflawni'n siomedig. Bydd Strategaeth Codi Arian yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Gweithredu: (1) Pedr i roi'r eitem yma ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd; (2) Mererid Jones i baratoi Strategaeth Codi Arian i'w gynnwys ym mhapurau'r cyfarfod nesaf.

Adran 5 Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad

5.1 Cofnodion Cyfarfod 1 Chwefror 2016

Cyflwynwyd y cofnodion gan Gadeirydd y Pwyllgor, Dr Susan Davies.

Nododd y cadeirydd fod nifer o eitemau sylweddol wedi eu cynnwys ym mhapurau'r Bwrdd, gan ddechrau gyda chofnodion cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar 1 Chwefror. Ni fyddai amser yn caniatáu ystyriaeth lawn, ond roedd rhaid tynnu sylw at bwyntiau penodol o'r cofnodion ac egluro cyd-destun y dogfennau eraill.

Yn gyntaf, roedd teitl y Pwyllgor wedi ei sefydlu fel y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad, gan fod hyn yn adlewyrchu'n glir ei Gylch Gorchwyl. Roedd hefyd yn amlwg bod angen o leiaf un aelod ychwanegol o blith yr Ymddiriedolwyr, o gofio bod cworwm y Pwyllgor angen tri a phedwar yn unig oedd yr aelodaeth gyfredol. Dylid mynd i'r afael a'r rhain, a mân newidiadau i'r geiriad yn y Cylch Gorchwyl, fel y nodwyd yn y cofnodion.

Roedd cyfraniadau yn y cyfarfod yn arbennig o adeiladol. Adolygwyd y cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion PwC; cydnabuwyd natur cymhleth statws, atebolrwydd a llywodraethiant LIGC; trafodwyd drafft diwygiedig y Fframwaith Llywodraethiant, ynghyd â'r Dangosyddion Cyflawni yn seiliedig ar Lythyr Cylch Gorchwyl 2015.

Roedd awgrymiadau defnyddiol yn cynnwys: cynnal archwiliad sgiliau o aelodau'r Bwrdd i nodi bylchau presennol a'r rhai a fydd yn codi gydag ymddeoliadau; diwygio Rheoliadau heneiddiedig y Llyfrgell fel y gallai'r Fframwaith Llywodraethiant drafft a'r Rheoliadau diwygiedig cael ei ystyried gan y Bwrdd ar yr un pryd, a chanfod cyfleoedd i aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol gyfarfod y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd.

Croesawodd y Pwyllgor hefyd cyfathrebu gwell, yn fewnol ac yn allanol; ystyriwyd cyfleoedd hyfforddiant posibl ar gyfer y Bwrdd; dechreuwyd archwilio sut y gallai'r Pwyllgor gefnogi'r Tîm Gweithredol mewn materion staffio, a sut y gellid cyfleu dealltwriaeth well o waith a rôl y Llyfrgell i wleidyddion, y cyhoedd yn gyffredinol, a rhoddwyr a chyllidwyr posibl. Trafodwyd hefyd pryderon am y risg presennol i'r grant pwrcasu.

Ymhlith y papurau yn Eitem 5, mae'r siart sydd yn dangos y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag argymhellion PwC yn adlewyrchu'r ymdrech enfawr a wnaed gan y rhai oedd yn gweithio trwy Awst ar y Tasglu, ac mae'r momentwm parhaus wedi cael ei gynnal ochr yn ochr â chefnogaeth gan ACAS

a'r amser a roddwyd gan yr undebau i wneud sylwadau defnyddiol. Mae'r Papur Trafod yn adlewyrchu sylwadau braidd yn eang PwC ar faterion llywodraethiant a'r berthynas rhwng y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol; argymhellir y dylai aelodau'r Bwrdd darllen ac amsugno'r papur hwn cyn dechrau ar y Fframwaith Llywodraethiant drafft a'r Rheoliadau diwygiedig. Nid oedd un o'r drafftiau sylweddol hyn eto'n barod i gael ei gwblhau, ond byddai sylwadau cyffredinol yn derbyn croeso ar unwaith. Dylid anfon yr holl sylwadau penodol ar fanylion at gadeirydd y Pwyllgor a Pedr erbyn dechrau mis Mawrth, i gynorthwyo gyda'r drafftiau nesaf i'w ystyried. Roedd y Dangosyddion Cyflawni, ar y cyfan, yn hunanesboniadol ac wedi ei ddiweddarau ers cyfarfod y Pwyllgor.

I gloi, gofynnwyd i'r Bwrdd gytuno ar y newidiadau bach i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor, enwebu Aelodau ychwanegol o'r Pwyllgor; a thrafod unrhyw faterion pellach sydd yn codi o'r papurau hyn.

Yn dilyn trafodaeth fer, etholwyd Iwan Davies a Huw Williams i wasanaethu ar y Pwyllgor.

Adran 6 Busnes y Llywydd dros-dro a'r Prif Weithredwr

6.1 Busnes y Llywydd dros-dro

Roedd y Llywydd dros-dro yn ddiolchgar i'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, aelodau'r Tîm Gweithredol a staff y Llyfrgell am eu cydweithrediad yn ystod y misoedd diwethaf. Nododd fod ei sgwrs wythnosol ffurfiol gyda Linda Tomos yn hynod ddefnyddiol ac adeiladol a gwerthfawrogodd y ffordd yr oedd y Llyfrgell yn cysylltu â hi ynghylch materion perthnasol.

Cyfeiriodd Tricia Carter hefyd at gyfarfod o'r Corff Ymgynghorol a oedd wedi cyfarfod yn ddiweddar a themlai gallwn fel sefydliad wneud gwell defnydd o sgiliau'r aelodau.

6.2 Busnes y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

Yn yr un modd yn union, roedd Linda Tomos hithau'n gwerthfawrogi cefnogaeth a chynngor doeth y Llywydd dros-dro, ac aelodau'r Bwrdd yn ogystal. Nododd bod angen i'r Tîm Gweithredol edrych yn feirniadol ar gyfansoddiad a chylch gorchwyl y Corff Ymgynghorol er mwyn sicrhau ei fod yn gwireddu ei bwrpas o fod yn brif gyfrwng y Llyfrgell i ymgysylltu â'r cyhoedd.

Gweithredu: Aelodau'r Tîm Gweithredu i ystyried cyfansoddiad a chylch gorchwyl y Corff Ymgynghorol er mwyn sicrhau ei fod yn gwireddu ei bwrpas.

Adran 7 Unrhyw fater arall

Gan mai'r cyfarfod hwn fyddai cyfarfod olaf Avril Jones cyn iddi ymddeol ddiwedd Mawrth fe gyflwynwyd rhodd iddi gan y Llywydd dros-dro a diolchwyd iddi am ei gwasanaeth clodwiw i'r Llyfrgell a'r Bwrdd dros nifer helaeth o flynyddoedd.

Diwedd y cyfarfod agored